

Canllaw ar Dreth y Cyngor ac Ardrethi Annommestig



2019/20



RHONDDA CYNON TAF

Treth y Cyngor ac Ardrethi Annomestig 2019/20

Eglurhad o Dreth y Cyngor ac Ardrethi Annomestig a gwybodaeth ychwanegol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae'r daflen yma'n ffurfio rhan o hysbysiad hawlio statudol ac mae hi ar gael mewn sawl diwyg ar gais.

Cynnwys

Gwybodaeth Gefndirol	3
Sut caiff cyllideb y Cyngor ei hariannu?	4
Cymharu gwariant net amcangyfrifedig 2018/19 a 2019/20	6
Gwybodaeth Ariannol Arall	7
Prif Breseptau a Phreseptau Cyngorau Cymuned 2019/20	8
Gostyngiad Treth y Cyngor – Gwybodaeth Gyffredinol	9
Treth y Cyngor – Gostyngiadau, Rhyddhad ac Eithriadau	10
Sut i dalu, gweld manylion eich cyfrif a rhoi gwybod inni am unrhyw newid yn eich amgylchiadau	11
Eich Bil Cyfraddau Annomestig	12

1 Gwybodaeth Gefndirol

Yn ôl y gyfraith, rhaid i'r Cyngor ddarparu gwybodaeth i chi ar gynlluniau gwario'r Cyngor a bil Treth y Cyngor. Yn y gorffennol, roedd rhaid i'r Cyngor gynnwys yr wybodaeth yma eich bil Treth y Cyngor. Bydd eich bil Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 yn dangos yr hyn y mae'n rhaid i chi ei dalu a faint o arian y bydd yr holl sefydliadau isod yn ei gael:

A) Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cydon Taf

B) Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer De Cymru


C) Eich Cyngor Cymuned (os yw'n briodol)

Mae incwm o ran Treth y Cyngor yn cyfrannu at y gwaith o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, yn ogystal â'r gwasanaethau hynny a gaiff eu darparu gan sefydliadau cyswllt, megis Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer De Cymru (sydd ddim yn casglu Treth y Cyngor yn uniongyrchol).

Dim ond un ffordd o ariannu Llywodraeth Leol ydy Treth y Cyngor. Mae mathau eraill o incwm yn cynnwys Grantiau Canolog gan y Llywodraeth, megis y Grant Cymorth Refeniw a chyfraniadau gan y Gronfa Ardrethi Annomestig (cyfraddau a gaiff eu talu gan fusnesau lleol). Dim ond 23% o gyllideb y Cyngor a gaiff ei ariannu gan y sawl sy'n talu Treth y Cyngor.

2

Sut caiff cyllideb y Cyngor ei hariannu?



£M


Grant Cynnal Refeniw	£290.956
Cyfraniadau'r Gronfa Ardrethi Annomestig	£76.383
Defnyddio cronfeydd wrth gefn	£1.537
Grantiau Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau i Blant	£2.600
Cyfanswm a godwyd gan Dalwyr Treth y Cyngor	£111.993

Mae'r Fwrdeistref Sirol wedi cymeradwyo cyllideb net o £483.469 miliwn ar gyfer 2019/20.

Mae nifer o wasanaethau'n cael eu cynnal trwy hyn, gan gynnwys:

- Addysg (meithrin, cynradd ac uwchradd)
- Gwasanaethau i blant
- Priffyrdd
- Gwasanaethau trafndiaeth
- Cynllunio ar gyfer argyfwng
- Safonau masnachu
- Gwasanaethau i bobl ifainc
- Gwasanaethau tân
- Gwasanaethau Hamdden
- Gwasanaethau Gofal y Strydoedd
- Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Cymharu gwariant net amcangyfrifedig 2018/19 a 2019/20



Gwybodaeth Ariannol Arall

Setliad Ariannol Llywodraeth Leol:

Yn ôl asesiad gan Lywodraeth Cymru o'r hyn y mae angen i'r Cyngor ei wario ar wasanaethau, sef yr Asesiad o Wariant Safonol, rhaid gwario £465.653M.

Buddsoddi Cyfalaf:

Mae rhaglen fuddsoddi cyfalaf gwerth £173.202 miliwn wedi'i gynllunio ar gyfer y 3 blynedd rhwng 19/20 a 21/22.

Arian wrth gefn:

Refeniw wrth gefn – y tyb yw mai dros £10m fydd y daliannau gweithiol ar ar 31 Mawrth 2020.

Crynodeb o Gyllideb Refeniw

Cyllideb
2018/19
£M

Cyllideb
2019/20
£M

	Cyllideb 2018/19 £M	Cyllideb 2019/20 £M
Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant	£175.531	£179.171
Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant	£150.169	£156.973
Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen ac Adran y Prif Weithredwr	£76.325	£78.521
Amrywiol	£14.058	£13.167
Ariannu Cyfalaf	£19.947	£18.917
Trethi Cyrff Eraill	£11.790	£12.384
Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor	£23.780	£24.336
Cyfansymiau	£471.600	£483.469

Prif Breseptau a Phreseptau Cynghorau Cymuned 2019/20

Presept 2018/19 (£)	Treth y Cyngor Band D 2018/19 (£)	Corff Preseptio/ Cyngor Cymuned	Presept 2019/20 (£)	Treth y Cyngor Band D 2019/20 (£)
£17,670,092.00	£233.52	Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer De Cymru	£19,796,486.00	£257.52
£40,000.00	£39.99	Y Gilfach-goch	£51,000.00	£50.83
£57,200.00	£35.59	Hirwaun	£59,152.00	£36.53
£184,356.81	£61.56	Llanharan	£198,334.13	£64.56
£103,012.80	£66.00	Llanhari	£119,259.00	£75.00
£212,359.20	£40.00	Llantrisant	£218,997.00	£41.00
£253,195.05	£38.76	Llanilltud Faerdref	£254,481.11	£38.76
£113,410.00	£32.58	Pont-y-clun	£118,480.00	£33.88
£676,147.00	£66.01	Pontypridd	£708,644.37	£67.71
£14,500.00	£53.01	Y Rhigos	£15,000.00	£53.97
£36,283.57	£25.89	Ffynnon Taf	£36,804.04	£25.77
£225,049.43	£58.44	Tonyrefail	£234,051.41	£59.43
£40,164.42	£28.48	Ynys-y-bŵl a Choed-y-Cwm	£41,369.35	£29.42

Treth y Cyngor - Gwybodaeth Gyffredinol

Bob mis Mawrth, mae'r Cyngor yn llunio biliau Treth y Cyngor newydd ar gyfer mwy na 109,000 eiddo yn Rhondda Cynon Taf. Er mwyn helpu i ateb unrhyw ymholiadau sydd gyda chi ynglŷn â'ch bil a materion eraill, mae'r Cyngor wedi llunio rhestr o gwestiynau cyffredin. Mae modd ei gweld hi yma:

www.rctcbc.gov.uk/ynglynathrethycyngor

Pe hoffech chi gopi caled o'r llyfryn yma, mae modd i chi wneud cais yma (gofynnwch am y Canllaw Defnyddiol) drwy:

Trwy lythyr: Uwchadran Gwasanaethau Ariannol, Treth y Cyngor,
Tŷ Bronwydd, Y Porth, Cwm Rhondda, CF39 9DL

E-bostio: refeniw@rctcbc.gov.uk

Bydd swm y dreth rydych chi'n ei thalu yn dibynnu ar ba fand y mae eich cartref ynddo, ac ym mha ardal mae eich cartref.

Mae eich cartref wedi'i ddynodi i un o blith naw o fandiau, a hynny yn ddibynnol ar ei werth ar y farchnad ar 1 Ebrill 2003.

Mae lefelau Treth y Cyngor mewn rhai ardaloedd yn Rhondda Cynon Taf yn wahanol i'r lefelau yng ngweddill y Fwrdeistref Sirol. Mae hyn am eu bod nhw'n ardaloedd sydd â Chyngor Cymuned, sy'n gosod presept (tâl) ar fil Treth y Cyngor. Mae modd gweld y preseptau yma ar eich bil Treth y Cyngor.

Mae modd gweld rhestr lawn o'r taliadau Treth y Cyngor ar gyfer pob cymuned yn Rhondda Cynon Taf yma:

www.rctcbc.gov.uk/TaliadauTrethyCyngor

Treth y Cyngor - Gostyngiadau, Rhyddhad ac Eithriadau

Gostyngiadau, Rhyddhad ac Eithriadau o ran y Dreth Gyngor

Efallai y byddwch chi'n talu llai na'r swm rydych chi'n atebol i'w dalu oherwydd gostyngiadau neu fudd-dal rydych chi'n gymwys i'w cael. Os ydyn nhw'n berthnasol, byddan nhw i'w gweld ar eich bil. Mae'r wybodaeth am sut i hawlio gostyngiadau ar gael yn:

www.rctcbc.gov.uk/gostyngiadtrethycyngor

Gostyngiad Person Sengl

Os chi yw'r unig oedolyn sy'n byw yn y cartref, efallai bydd hawl gyda chi i ostyngiad 25% yn eich bil treth y Cyngor.

Gostyngiad llwyr i'r sawl sy'n Gadael Gofal

O 1 Ebrill 2019, fydd y rheiny sy'n gadael gofal ddim yn talu treth y Cyngor o dan ddeddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru.

Eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir

Bydd unrhyw eiddo sydd wedi bod yn wag am chwe mis neu wedi hynny, ac sydd heb eu heithrio o fod yn destun treth y cyngor am reswm arall, yn talu 100% o dreth y Cyngor.

Salwch meddwl difrifol

Os ydych chi'n dioddef o salwch y meddwl, ac mae meddyg wedi cadarnhau hynny, a'ch bod chi'n derbyn budd-dal cymwys yr wladwriaeth, efallai bydd hawl gyda chi i ostyngiad yn eich bil treth y Cyngor.

Datganiad am Ostyngiadau

Os ydych chi'n derbyn unrhyw fath o ryddhad/gostyngiad neu eithriad, ond dydych chi ddim yn gymwys i gael hynny mwyach oherwydd bod eich amgylchiadau wedi newid, mae rhaid ichi, yn ôl y gyfraith, roi gwybod i'r Cyngor o fewn 21 diwrnod o'r newid hwnnw. Os nad ydych chi'n rhoi gwybod i'r Cyngor am unrhyw newidiadau perthnasol mewn perthynas â rhyddhad, gostyngiad neu eithriad rydych chi'n ei dderbyn, mae'n bosibl y cewch chi gosb ariannol o £50.00 neu hyd yn oed cael eich erlyn o dan Ddeddf Twyll 2006.

Sut i dalu, gweld manylion eich cyfrif a rhoi gwybod inni am unrhyw newid yn eich amgylchiadau

Sut i dalu

Sefydlu Debyd Uniongyrchol: www.rctcbc.gov.uk/debyduniongyrchol

Ewch ar-lein - www.rctcbc.gov.uk/talu a chlicio ar 'Cymraeg' ar frig y dudalen

Ffoniwch y llinell daliadau awtomatig bob awr o'r dydd: **01443 425000**

Talwch eich bil mewn swyddfa bost neu siop bapurau sy'n arddangos arwydd 'Payzone'

Fy Nghyfrif

Mae modd i chi weld eich cyfrif Treth y Cyngor, ardrethi busnes neu fudd-daliadau ar-lein yn www.rctcbc.gov.uk/egyfrif. Mae modd i chi ddewis derbyn biliau drwy e-bost, gweld cyfriflen lawn o'ch cyfrif, rhestr o'ch taliadau a manylion unrhyw ostyngiadau neu eithriadau, yn ogystal â gweld erbyn pryd y mae angen i chi dalu'ch rhandaliadau.

Hunan-wasanaeth

Ffordd gyflym, hawdd a diogel o roi gwybod i ni os byddwch chi'n symud tŷ, newid eich enw, hawlio gostyngiad person sengl neu drefnu debyd uniongyrchol - ewch i www.rctcbc.gov.uk/egyfrif

Eich Bil Ardrethi Annomestig

Mae'r wybodaeth isod yn egluro rhai o'r termau a fydd, o bosibl, yn cael eu defnyddio ar hysbysiad ardrethi annomestig ac mewn unrhyw wybodaeth atodol. Mae modd cael rhagor o wybodaeth am atebolrwydd o ran ardrethi annomestig gan awdurdodau bilio.

Ardrethi Annomestig

Caiff yr ardrethi annomestig a gaiff eu casglu gan yr awdurdodau bilio eu talu i mewn i gronfa ganolog ar gyfer Cymru, a'u dyrannu i gynghorau sirol a chynghorau bwrdeistref sirol yn ogystal â chomisiynwyr yr heddlu a throseddau. Mae eich cyngor a'ch comisiynydd yr heddlu a throseddau'n defnyddio eu rhandaliadau nhw o'r incwm sydd wedi'i ddyrannu, ynghyd â'r incwm gan dalwyr treth y cyngor, y grant cymorth refeniw gan Weinidogion Cymru a symiau penodol eraill o arian i dalu am y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu. Mae modd cael rhagor o wybodaeth am y system ardrethi annomestig, gan gynnwys pa gymorth sydd ar gael drwy fynd ar <https://businesswales.gov.wales/cy/>

Gwerth Ardrethol

Fel arfer, caiff gwerth ardrethol eiddo annomestig ei bennu gan swyddog gwerthuso annibynnol o Asiantaeth y Swyddfa Werthuso sy'n Asiantaeth Weithredol ar ran gwasanaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC). Mae'r swyddog yn llunio rhestr lawn o werth ardrethol yr holl eiddo annomestig yng Nghymru. Mae copi o'r rhestr yma ar y wefan, sef www.gov.uk/government/organisations/valuation-office-agency. Fel arfer caiff gwerth eiddo annomestig ei ailystyried bob 5 mlynedd. O 1 Ebrill 2017, bydd gwerth ardrethol eiddo yn cynrychioli ei ei werth ar y farchnad rhentu ar 1 Ebrill 2015.

Ar gyfer eiddo cyfansawdd sy'n rhannol ddomestig ac yn rhannol annomestig, bydd y gwerth ardrethol yn berthnasol i'r rhan annomestig yn unig. Dylai gwerth yr holl eiddo sy'n destun talu ardrethi i'ch awdurdod lleol yn y rhestr ardrethi lleol. Mae modd gweld copi o'r rhestr yma yn Asiantaeth y Swyddfa Brisio, Tŷ Rhodfa, Heol Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5GR neu yn Swyddfeydd y Cyngor.

Ailwerthuso

Caiff yr holl werthoedd ardrethol eu hailasesu drwy ailwerthusiad cyffredinol er mwyn sicrhau bod y cyfraddau a gaiff eu talu gan unrhyw dalwr yn adlewyrchu'r newidiadau yng ngwerth eu heiddo, mewn perthynas ag eraill, dros amser. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y system ardrethol yn deg drwy ddiweddarau'r gwerthusiadau yn unol â'r newidiadau yn y farchnad. Daeth y rhestr ardrethol gyfredol i rym ar 1 Ebrill 2017, ac mae'n seiliedig ar y gwerthoedd a gafodd eu nodi ar 1 Ebrill 2015.

Yn ystod y flwyddyn pan gaiff ailwerthusiad ei gynnal, caiff y lluosydd ei ddiwygio er mwyn cwmpasu'r newidiadau cyffredinol i'r gwerth ardrethol yn ei gyfanrwydd a sicrhau bod yr ailwerthusiad ddim yn codi arian ychwanegol.

Newid yn y Gwerth Ardrethol

O dan rai amgylchiadau, mae modd i'r sawl sy'n talu'r ardrethi (yn ogystal ag unigolion penodol eraill sy'n gysylltiedig â'r eiddo) wneud cais i newid gwerth yr eiddo. Os dydy'r sawl sy'n talu'r ardrethi a'r swyddog gwerthuso ddim yn cytuno ar y gwerthusiad o fewn 3 mis o'r cais, bydd y swyddog gwerthuso'n cyfeirio'r mater at Dribiwnlys Gwerthuso Cymru. Mae modd cael rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais i newid gwerth ardrethol o'r swyddfeydd prisio.

Lluosydd Ardrethu Annomestig Cenedlaethol

Dyma'r ardrethi a gaiff eu defnyddio i luosi'r gwerth ardrethol er mwyn cael y bil gwerth ardrethol blynyddol ar gyfer yr eiddo. Caiff y lluosydd ei bennu bob blwyddyn gan Weinidogion Cymru ac mae'n gyson ar gyfer pob ardal yng Nghymru. Does dim modd i'r swm yma gynyddu mwy na chyfradd y cynnydd yn y mynegai prisiau defnyddwyr ac eithrio mewn blwyddyn ailwerthuso.

Cynigion ac Apeliadau

Mae'r wybodaeth ynglŷn â'r amgylchiadau pan fo modd gwneud cais am newid gwerth ardrethol, yn ogystal â'r wybodaeth am sut i wneud hynny ar gael o'r swyddfa brisio sydd wedi'i henwi uchod. Mae modd cael rhagor o wybodaeth am drefniadau'r apêl gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf neu Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn darparu gwasanaeth apelio annibynnol am ddim sy'n ymdrin ag apeliadau am Ardrethi Annomestig a Treth y Cyngor. Mae modd cael gafael ar y manylion cyswllt yma <http://www.valuation-tribunals-wales.org.uk/cy/cartref.html>

Ardrethi eiddo gwag

Mae'n bosibl y bydd gofyn i berchnogion eiddo annomestig gwag dalu ardrethi eiddo gwag, sef 100% o'r pris arferol. Mae gofyn iddyn nhw wneud hyn os yw'r eiddo wedi bod yn wag am 3 mis neu, yn achos rhai eiddo diwydiannol, os yw'r eiddo wedi bod yn wag am 6 mis. Mae rhai mathau o eiddo wedi'u heithrio o ardrethi eiddo gwag.

Cymorth elusennol a dewisol

Mae hawl gan elusennau a chlybiau chwaraeon amatur gael rhyddhad o 80% ar ardrethi ar gyfer unrhyw eiddo annomestig os, -

- (a) yn achos elusennau, yw'r eiddo yn cael ei ddefnyddio yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiibenion elusennol; neu
- (b) yn achos clwb, yw'r clwb wedi'i gofrestru gyda Chyllid a Thollau ei Mawrhydi.

Mae gan awdurdodau bilio'r disgrisiwn i ddileu'r 20% sy'n weddill, naill ai yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ar gyfer eiddo o'r fath. Hefyd, mae modd i'r awdurdod roi rhyddhad mewn perthynas ag eiddo sy'n cael ei ddefnyddio gan sefydliadau penodol sydd ddim er elw. Pe hoffech chi ragor o wybodaeth am y clybiau yma, cysylltwch â Chyllid a Thollau EM, Sports Club Unit, St John's House, Merton Road, Liverpool, L75 1BB.

(Y wefan yw <http://www.hmrc.gov.uk>).

Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach

Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017 yn galluogi busnesau bach i hawlio rhyddhad o ran ardrethi busnes.

O 1 Ebrill 2018 dim ond hyn-a-hyn o eiddo sy'n gymwys ar gyfer y gostyngiad yma, hynny yw 2 i bob busnes ym mhob ardal Cyngor. Mae hyn felly, yn cyfyngu'r gostyngiadau sydd ar gael i fusnesau mwy a chwmnïau cadwyn cenedlaethol o dan y Cynllun yma.

O dan Erthygl 4 y rheoliadau, os oes rhaid i dalwr ardrethi dalu ardrethi busnes am fwy na dau eiddo sydd wedi'u dangos yn y rhestr Ardrethi Annomestig lleol, sy'n bodloni'r amodau ardrethol, rhaid i'r talwr roi gwybod i'r Cyngor am yr eiddo yma cyn gynted ag y bo modd.

Y talwr ardrethi sy'n gyfrifol am roi gwybod i'r Cyngor os yw e'n cael Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach fwy na dwywaith mewn perthynas ag unrhyw eiddo mae e'n gyfrifol am dalu ardrethi busnes ar ei gyfer.

Mae'r holl fanylion am y cynllun newydd, gan gynnwys meini prawf cymhwysedd, yr eithriadau, gofynion y drefn a'r rhyddhad ardrethi perthnasol ar gael yn:

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Business/BusinessRates/Businessratesreliefand reductions.aspx>

Darparwyr Gofal Plant

Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2018 yn darparu ar gyfer cynllun gostyngiadau i fusnesau, sy'n berthnasol i rai categorïau o fusnesau.

Effaith y diwygiadau o dan yr Orchymyn yma yw eithrio pob eiddo sy'n bodloni'r "amodau gofal plant" rhag talu ardrethi annomestig o 1 Ebrill 2019.

Mae'r Orchymyn wedi'i diwygio er mwyn cynyddu uchafswm y gwerth ardrethol ar gyfer eiddo sy'n bodloni'r amoday gofal plant i £100,000 (o £20,500). Mae hyn yn golygu bod pob eiddo sydd â gwerth ardrethol o £100,000 neu lai, sy'n bodloni'r amodau gofal plant, yn gymwys ar gyfer rhyddhad/gostyngiad o dan y cynllun yma.

Gostyngiad Ardrethi ar gyfer y Stryd Fawr

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £23.6miliwn i ychwanegu at y cynllun rhyddhad ardrethi'r Stryd Fawr, a'i ehangu, ar gyfer 2019-20 yn unig, hynny yw cynllun blwyddyn.

O 1 Ebrill 2019, bydd y cynllun ychwanegol yma'n rhoi hyd at £2,500 o ostyngiad mewn ardrethi i fusnesau cymwys. I fod yn gymwys ar gyfer cymorth o dan y cynllun yma, bydd raid bod gan fusnesau cymwys werth ardrethol o hyd at £50,000.

Rhyddhad ardrethi pontio

Mae'r Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2016 (2) yn galluogi busnesau bach i gael rhyddhad pontio os ydyn nhw'n cael eu heffeithio gan ail-werthuso hereditamentau sy'n cael eu rhoi ar waith o 1 Ebrill 2017. Mae modd cael gafael ar yr holl fanylion, gan gynnwys y meini prawf cymhwysedd, yr eithriadau, gofynion y drefn, a'r rhyddhad ardrethi perthnasol gan y Cyngor.

Cymorth gan y wladwriaeth

Mae modd i ryddhad o ran talu ardrethi annomestig gael ei ystyried yn gymorth gan y wladwriaeth. Mae hyn yn gyfreithlon os caiff e ei ddarparu yn unol â Rheoliad y Comisiwn (UE) rhif 1407/2013 ynglŷn â chymorth de minimis. Dylai'r rheoliad cymorth de minimis yn galluogi pob achos i dderbyn hyd at €200,000 o gymorth de minimis dros dair blynedd barhaus. Os ydych chi'n derbyn, neu wedi derbyn, cymorth de minimis d a gafodd ei roi yn ystod y flwyddyn bresennol neu dros y ddwy flwyddyn ddiwethaf (a hynny gan unrhyw ffynhonnell), dylech chi roi gwybod i'r awdurdod bilio yn syth gan nodi manylion y cymorth rydych chi'n ei gael.